Rhan 2

Cynllunio gweithdai

Rhan 2

Diolch Sam

GwaithleuenctidCymru

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Rhan 2

Cynllunio Gweithdai

2.1 Sut i ddefnyddio Rhan 2

Mae'r adran hon yn cynnwys y prif ddeunydd rhyngweithiol a gwybodaeth ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o waith ieuenctid fel gyrfa.

Trwy ddilyn y canllawiau i gynllunio a dewis sesiynau addas bydd gan yr hwylusydd bopeth angenrheidiol, mae'n debyg, i redeg sesiwn 45 munud i godi ymwybyddiaeth.

Mae'r adnoddau a'r wybodaeth atodol, gan gynnwys gweithgareddau torri'r garw, ymarferion a thaflenni a gwybodaeth arall i bobl ifanc yn Rhan 4. Mae'r holl adnoddau a defnyddiau ar gael ar fformat y gellir ei atgynhyrchu. Darperir hefyd adnoddau eraill i gynorthwyo pobl ifanc sy'n ystyried gwaith ieuenctid fel gyrfa, a llyfryn i bobl ifanc ei gadw, o'r enw **'Allech chi fod y Sam nesaf?'**.

Gwaith Ieuenctid ar Strydoedd Caerdydd
Cyngor Sir Caerdydd

2.2 Cynlluniau'r gweithdai

Bydd y cynlluniau sampl o help i sicrhau bod y sesiynau'n brofiad boddhaol i'r bobl sy'n cymryd rhan. Nod y cynlluniau yw helpu i ganolbwyntio ar gynllunio a darparu gweithdai a gwneud gwaith yn eu sgil, gan sicrhau bod y bobl ifanc yn cael y gorau o'r sesiwn. Ceir rhestr o adnoddau hefyd i'w paratoi ymlaen llaw, er mwyn i'r sesiwn redeg yn esmwyth.

Lluniwyd y tri sesiwn ar gyfer pobl ifanc ar wahanol gyfnodau yn eu cysylltiad â gwaith ieuenctid. Mae pob cynllun yn awgrymu amserau a detholiad o weithgareddau megis rhywbeth i dorri'r garw, neu rywbeth o ddewis y tiwtor ei hun. Awgrymir gweithgareddau megis cwisiau hefyd.

"Diolch Sam
Mae'r rhai a gymerodd ran yn teimlo bod llawer wedi'u gyflawni o'r prosiect. Mae'r sefyllfa sbwriel wedi gwella'n sicr."

'Grime Busters'
(Canolfan Ieuenctid Bodringallt)
Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT,
Ystrad, Rhondda Cynon Taf

Prosiect 'Dreamcatcher' Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy

Y tri sesiwn yw:

- **Sesiwn 1: Beth mae Gweithiwr/wraig Ieuenctid yn ei wneud?** Anelir y sesiwn hwn at bobl ifanc sydd ag ychydig neu ddim profiad o waith ieuenctid
- **Sesiwn Plan 2: Pam dewis gwaith ieuenctid?** Anelir y sesiwn hwn at bobl ifanc sydd â pheth profiad o waith ieuenctid.
- **Sesiwn Plan 3: Sut mae dod yn Weithiwr/wraig Ieuenctid?** Anelir y sesiwn hwn at bobl ifanc sydd â mwy o brofiad o waith ieuenctid, ac sydd â diddordeb mewn opsiynau o ran gyrfa. Argymhellir yn gryf y dylai gweithiwr/wraig ieuenctid profiadol ddarparu'r cyfan lle bo modd weithio mewn partneriaeth i ddarparu'r sesiwn er mwyn bod â hygrededd fel model neu fel astudiaeth achos byw.

2.3 Sut y gall cyd-destunau effeithio ar gynllunio a darparu sesiynau



Fforwm Ieuenctid AMVYC
Prosiect Ieuenctid a Chymuned Aberfan a Merthyr

Bydd angen i;'r sesiynau ennyn a chynnal diddordeb y bobl ifanc, heb esboniadau hirfaith ac iaith gymhleth. Bydd y sesiynau'n ceisio apelio at bobl ifanc amrywiol eu hoedran, eu diddordeb, eu gallu, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth, ac felly bydd angen iddynt gael eu haddasu i ymgorffori anghenion pawb sy'n cymryd rhan.

Ceir gwahaniaeth amlwg o ran amgylchedd rhwng ystafell ddosbarth ffurfiol a chanolfan ieuenctid. Mewn ystafell ddosbarth bydd disgwyl i'r rhai sy'n cymryd rhan eistedd, gael eu cyfarwyddo a bod yn barod i dderbyn gwybodaeth. Ni chânt adael yr ystafell os nad yw'r gweithgaredd yn apelio – maent yn gaeth.

Mewn canolfan ieuenctid, yn aml, mae llawer o weithgareddau'n digwydd yr un pryd ac nid yw'n orfodol i'r bobl ifanc barhau i gymryd rhan mewn gweithgaredd os ydynt yn dewis peidio. Mewn amgylchedd o'r fath, mae darparu gweithdy'n gofyn am ryngweithio dwys ac amryw byd o gymhellion i gynnal diddordeb.

Rhaid ystyried ystafell a dewis cynllun sy'n hyrwyddo gweithgareddau mewn grwpiau gyda digon o le i symud o gwmpas ac i bobl ifanc eistedd mewn cylch.

Un awgrym yw y gellir addasu'r gemau a'r gweithgareddau yn y gweithdy i bob amgylchedd e.e. os bydd gofod yn caniatáu, defnyddio continwwm ar draws yr ystafell i ddangos atebion i'r cwisiau/nage/ddim yn gwybod neu ofyn i bobl ifanc godi cardiau coch, gwyrdd a melyn i ddangos yr un atebion ar eu heistedd.

“Diolch Sam Yn awr dw i’n gwybod sut mae mam yn teimlo, rydw i’n gwerthfawrogi’r hyn mae’n ei wneud yn fwy.”

Brecon Boyz
Gwasanaeth Ieuenctid Powys,
Aberhonddu, Powys

Rhaid rhoi sylw i niferoedd y bobl ifanc. Byddai’r sesiynau’n gweithio orau gyda thua 15 os bobl yn cymryd rhan. Os yw’r grŵp yn fawr mae angen ystyried sut mae’r trafodaethau a’r gweithgareddau’n mynd i ddigwydd, megis, torri’r grŵp yn grwpiau llai a phennu roliau arweinwyr ac adroddwyr. Fodd bynnag po fwyaf y grwp dros y 15 delfrydol mwyaf anodd fydd hi i gynnal y sesiynau ac mae’n bosibl na fydd y canlyniadau i bobl ifanc mor effeithiol.

Os nad yw’r bobl ifanc yn adnabod ei gilydd byddai’n ddefnyddiol cael gweithgaredd i dorri’r garw a’u cyflwyno i’w gilydd a’u cymell i siarad.

Os yw’r sesiwn yn cael ei redeg y tu allan i amgylchedd gwaith ieuenctid, megis ysgol, rhaid darparu gwybodaeth am y sesiwn gan yr hwylusydd i’r sefydliad lle mae’n cael ei gynnal. Bydd angen egluro a chytuno gofynion o ran lle ac amser, oed y bobl ifanc a niferoedd.



Prosiect Ystafell Dawelu Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg, Llanilltud Fawr

"Diolch Sam Heb yr Ystafell Dawelu, ni fyddai unrhyw beth i'w wneud. Byddai bywyd yn ddiflas ac mae'n siŵr y byddwn yn hongian o gwmpas y stryd."

2.4 Rôl y gweithiwr/ wraig ieuenctid o ran cynllunio a darparu

Am fod y pecyn hwn i gael ei ddefnyddio gan weithwyr sydd â phrofiad o ddarparu sesiynau, gwnaed y cynlluniau a'r cyfarwyddiadau'n gryno. Gellir eu haddasu gyda defnyddiau ychwanegol y ,mae'r hwylusydd yn gyfarwydd â nhw ac sy'n addas i'r cyd-destun a'r bobl ifanc.

Argymhellir y dylai gweithiwr/wraig ieuenctid gymryd rhan mewn cynllunio a darparu'r sesiynau os nad yw i gael ei gynnal mewn amgylchedd gwaith ieuenctid. Mae gweithwyr ieuenctid yn fodelau ymddygiad da i bobl ifanc; mae'n bosibl eu bod yn adnabod y grwp o bobl ifanc a gallant gynorthwyo i addasu defnyddiau. Mae sesiwn 3 yn arbennig yn gofyn am gryn wybodaeth am y Gwasanaeth Ieuenctid ac am ble i gael profiad a hyfforddiant ychwanegol.

Awgrymir sesiynau ac ymarferion amgen i dorri'r garw sy'n addas i'r bobl ifanc a chyd-destun y gweithgareddau. Cynhwyswyd ymarferion nad ydynt yn gofyn am lythrennedd uchel. Os yw llythrennedd yn broblem, neu os oes rhaid gwneud y gwaith fesul hwb, cam a naid, gall yr hwylusydd newid y ddarpariaeth trwy ddefnyddio'r deunydd fel 'sbardun i drafod', neu gellir cwtogi'r gweithgaredd neu ei wneud yn fwy rhyngweithiol. Mae sensitifrwydd i ddiwylliant ac iaith yn bwysig wrth redeg sesiynau hefyd.

Mewn rhai sefyllfaoedd gall fod angen cyfuno rhai o'r sesiynau gan ddibynnu ar ymatebion y bobl ifanc a'r hyn y maent am ei wybod. Un o'r pethau da am waith ieuenctid yw y gall trafodaeth arwain at agweddau diddorol eraill a gellir defnyddir adnoddau neu'r wybodaeth ychwanegol sydd yn yr atodiadau i wneud hyn, er enghraifft.

Gwobr Dug Caeredin
Wrecsam

2.5 Adnoddau angenrheidiol

Mae adnoddau penodol ar gyfer pob sesiwn i'w cael yn y tudalennau cynlluniau. Fodd bynnag, dylai'r hwylusydd ystyried adnoddau eraill megis pennau, papur, siart troi, bwrdd gwyn, taflunydd digidol, taflunydd dros ysgwydd a thaflenni eraill.



Hyfforddiant Cymorth Cyntaf i Ffoaduriaid Tibet yn India
Ambiwlans Sant Ioan yng Nghymru

2.6 Defnyddiau rhyngweithiol ychwanegol i bobl ifanc

Mae'r rhain i'w gweld yn rhan 4 ynghyd â gweithgareddau torri'r garw, ymarferion a thaflenni ac maent yno i weithwyr ieuenctid eu defnyddio i gynorthwyo pobl ifanc sydd am fynd gam ymhellach. Maent yn cynnwys:

- Ffurflen cynllunio gweithredol yn nodi sgiliau i'w datblygiad a phrofiad angenrheidiol
- Opsiynau a chamau tuag at Waith Ieuenctid i bobl ifanc – Taflen
- Cysylltiadau lleol a chenedlaethol – taflen
- Achosion sy'n dangos sut mae pobl yn mynd yn weithwyr ieuenctid neu'n cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid a'u cymhellion
- Gwerthuso ac Adborth
- Tystysgrif presenoldeb
- Llyfryn i bobl ifanc: **Mae Ieuenctid yn Gweithio**

Rhan 2

Sesiwn 1

Beth mae Gweithiwr/wraig Ieuenctid yn ei wneud?

Nod:

Hysbysu pobl ifanc am natur gwaith ieuenctid, a rôl a swyddogaeth Gweithiwr/wraig Ieuenctid

---

Canlyniadau:

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd cyfranogwyr yn gallu:

- Amlinellu gweithgareddau sy'n berthnasol i Waith Ieuenctid
- Adnabod a blaenoriaethu swyddogaethau Gweithiwr/wraig Ieuenctid
- Adnabod ffynonellau gwybodaeth bellach

Yr hyn y mae angen ei baratoi:

- Copiau o'r taflenni a'r cardiau sydd yn y cynllun
- Digon o le ac amser i redeg y gweithdy
- Adnodd 'Allech chi fod y Sam nesaf?' i bobl ifanc
- Taflenni eraill a allai fod yn ddefnyddiol i bobl ifanc
- Pennau, paur ac adoddau eraill i gynorthwyo'r sesiwn

Rhan 2

Amser	Dulliau/gweithgareddau	Taflenni
5 mun	**Croeso** Cyflwyniadau, pwrpas hyforddiant, Iechyd a Diogelwch, materion domestig	
5 mun	**Torri'r garw** Cwis ar y wyddor, hwb	(C.1.A, B neu C) Cardiau alffa-cwis gwag NEU Ie/Na
10 mun	**Mewnbwn** gan y tiwtor am bwysigrwydd, amrywiaeth a hwyl gwaith ieuenctid. Pobl ifanc yn cael 6 cherdyn sy'n ymwneud â neges tiwtoriaid.	(Y.1.A neu B) Cardiau wedi'u paratoi ar gyfer pâr o fyfyrwyr
15 mun	**Ymarfer mewn Parau** Pobl ifanc yn trafod mewn parau ac yn creu pyramid 6 o'r cardiau mewn maes blaenoriaeth NEU defnyddio cardiau lluniau Pobl ifanc yn dweud pam eu bod yn rhoi eu dewis fel rhif 1 a thrafod Blaenoriaethu ar gyfer y grŵp cyfan os bydd amser	(Y.1.A neu B) Cardiau wedi'u paratoi ar gyfer pâr o fyfyrwyr
5 mun	**Cwestiynau** oddi wrth bobl ifanc? Amser trafod	'Allech chi fod y Sam nesaf?'
5 mun	Adolygu, Cwestiynau Ychwanegol, Gwerthuso	Taflenni Gwerthuso

Sesiwn 2

Pam dewis gwaith ieuenctid?

Nod:

Galluogi pobl ifanc i fod yn ymwybodol pam mae gwaith ieuenctid yn bwysig i fywydau pobl ifanc

---

Canlyniadau:

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd cyfranogwyr yn gallu:

- Amlinellu gweithgareddau sy'n berthnasol i Waith Ieuenctid
- Disgrifio llwybrau nodweddiadol o wneud gwaith ieuenctid
- Egluro canfyddiadau blaenorol am Waith Ieuenctid
- Adnabod ffynonellau gwybodaeth bellach

Yr hyn y mae angen ei baratoi:

- Copïau o'r taflenni a'r cardiau sydd yn y cynllun
- Digon o le ac amser i redeg y gweithdy
- Adnodd 'Allech chi fod y Sam nesaf?' i bobl ifanc
- Taflenni eraill a allai fod yn ddefnyddiol i bobl ifanc
- Pennau, papur ac adnoddau eraill i gynorthwyo'r sesiwn

Rhan 2

Amser	Dulliau/gweithgareddau	Taflenni
5 mun	**Croeso** Cyflwyniadau, pwrpas hyfforddiant, Iechyd a Diogelwch, materion domestig	
5 mun	**Torri'r garw** Gweithgaredd o'r detholiad	(C.2.A neu B) Y defnyddiau a ddarparwyd
10 mun	**Trafodaeth i'r grŵp cyfan** profiad y grŵp o waith ieuenctid hyd yn hyn ar siart troi Gwahanol ddulliau gwaith ieuenctid ac ymchwilio i ystod o weithgareddau a'u harddangos	
10 mun	**Gweithgaredd i'r bobl ifanc** Cwis (chwalu mythau) gan ddefnyddio'r fethodoleg gyfranogol fwyaf addas i'r lleoliad a'r amgylchedd	(Y.2.A, B neu C) Cwis Gwir/Anwir NEU Gardiau Gwir/Anwir
10 mun	**Mewnbwn gan y tiwtor** yn ymhelaethu ar hwyl gwaith ieuenctid, yn trafod dilyniant gyrfa, agweddau ar gyflog a'r amrywiaeth o roliau a dulliau gweithredu mewn gwaith ieuenctid	'Allech chi fod y Sam nesaf?'
5 mun	Adolygu, Cwestiynau Ychwanegol, Gwerthuso	Taflenni Gwerthuso

Sesiwn 3

Sut mae dod yn Weithiwr/ wraig Ieuenctid?

Nod:

Annog pobl ifanc i ystyried cyfleoedd i ddatblygu gyrfa mewn gwaith ieuenctid

---

Canlyniadau:

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd cyfranogwyr yn gallu:

- Amlinellu'r llwybrau dilyniant sydd ar gael mewn gwaith ieuenctid
- Disgrifio llwybrau i dderbyn hyforddiant a phrofiad mewn gwaith ieuenctid
- Adnabod eu sgiliau ac agweddau i'w datblygu a'r camau nesaf
- Adnabod ffynonellau gwybodaeth bellach

Yr hyn y mae angen ei baratoi:

- Copïau o'r taflenni a'r cardiau sydd yn y cynllun
- Digon o le ac amser i redeg y gweithdy
- Adnodd 'Allech chi fod y Sam nesaf?' i bobl ifanc
- Taflenni eraill a allai fod yn ddefnyddiol i bobl ifanc
- Pennau, papur ac adnoddau eraill i gynorthwyo'r sesiwn

Rhan 2

Amser	Dulliau/gweithgareddau	Taflenni
5 mun	**Croeso** Cyflwyniadau, pwrpas hyforddiant, Iechyd a Diogelwch, materion domestig	
5 mun	**Torri'r garw** Gweithgaredd o'r detholiad Pa ansoddeiriau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â gwaith ieuenctid	(C.3.A, B neu C) Dewis tiwtor NEU cardiau wedi'u paratoi
10 mun	**Ymarfer mewn Parau** Ystyried eu cryfderau ac agweddau i'w datblygu, a sut mae'r rhain yn cyfateb i ofynion gweithiwr/wraig ieuenctid	(Y.3) Ffurflen Cynllun Gweithredu Personol: Cryfderau ac agweddau i'w datblygu
10 mun	**Trafodaeth** ar gyfleoedd gwaith nodweddiadol yn y sectorau statudol a gwirfoddol Sesiwn holi ac ateb	(A.3.A neu B neu C a D) Copi papur o wybodaeth a gwefannau defnyddiol
10 mun	**Trafodaeth** ar wirfoddoli a llwybrau hyforddiant a chwestiynau Cynlluniau Gweithredu Personol lle bo diddordeb	Ffurflen Cynllun Gweithredu Personol 'Allech chi fod y Sam nesaf?'
5 mun	Adolygu, Cwestiynau Ychwanegol, Gwerthuso	Taflenni Gwerthuso